# Cerbydau

13 Chwefror 2018

**Cais am wybodaeth.**

Trosglwyddwyd y cais canlynol gan Lywodraeth Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Chwefror, gan ofyn i ni ymateb i gwestiwn 3 (a amlygwyd isod):

1. *Nodwch, yn ôl teitl neu ddisgrifiad swydd, yr aelodau hynny o'r Cynulliad Cenedlaethol sydd â'r hawl i gael cerbyd modur (car/fan) heb unrhyw gost iddyn nhw eu hunain, ac at ba ddiben.*
2. *Nodwch, yn ôl teitl neu ddisgrifiad swydd, yr aelodau hynny y rhoddir iddynt gerbyd modur (car/fan) heb unrhyw gost iddyn nhw eu hunain.*
3. ***Rhowch gyfanswm y nifer a'r mathau o gerbydau a ddarperir gan Gynulliad Cymru i: a) Aelodau etholedig, b) Swyddogion, c) staff eraill a gyflogir a d) unrhyw berson arall.***
4. *Rhowch fanylion 'telerau defnydd' y cerbyd, ar gyfer pob categori yn 3. uchod - gan gynnwys y defnydd gan gyflogai sy'n 'Oruchwyliwr', boed ar daith unwaith yn unig, yn ddyddiol neu'n barhaus.*
5. *Rhowch fanylion ynghylch sut mae'r cerbydau hyn yn cael eu caffael, hy rhentu tymor byr, rhentu tymor hir, prynu, neu arall.*
6. *Rhowch enw'r Cwmni/Cwmnïau sy'n darparu'r cerbydau hyn (ceir/faniau).*
7. *Rhowch gost flynyddol pob cerbyd unigol. hy cyfanswm y costau blynyddol yr eir iddynt (costau rhentu neu brynu, tanwydd, milltiroedd, gwasanaethu, MOT, trwydded, atgyweiriadau, yswiriant, parcio, tollau, fferi, ac ati) ar gyfer pob aelod Cynulliad Cymru y darperir cerbyd iddynt.*
8. *Rhowch fanylion unrhyw ddyfais, GPS, radio, ffôn, ac ati sydd wedi'i gosod ar gerbydau neu a ddarperir i aelodau staff Cynulliad Cymru ac at ba ddiben.*

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

9. *Rhowch fanylion unrhyw gostau unigol ychwanegol yr eir iddynt trwy ddarparu'r cerbydau hyn. h.y. prawf gyrru, trwydded yrru, yswiriant unigol, etc.*

Mewn ymateb i gwestiwn 3, nid ydym yn darparu unrhyw gerbydau i Aelodau etholedig, felly nid ydym yn cadw unrhyw wybodaeth gofnodedig sy'n ymwneud â'ch cais.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF